O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif. 195 (Cy.39)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (O Gylchfan Pont-y-pŵl, Torfaen i Gylchfan Mamheilad, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Traffig  Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *1 Chwefror 2011* |
| *Yn dod i rym* | *14 Chwefror 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Casnewydd - Amwythig (yr A4042) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig  a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Chwefror 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (O Gylchfan Pont-y-pŵl, Torfaen i Gylchfan Mamheilad, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Traffig  Dros Dro) 2011

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 22.00 o'r gloch ar 14 Chwefror 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio neu yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio neu yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 1 Chwefror 2011

***J COLLINS***
Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.

**(2)**Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

### HYD A LLED TERFYN CYFLYMDER 50 MYA DROS DRO.

Y darn hwnnw o’r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 58 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Pont-y-pŵl ym Mwrdeistref Sirol Torfaen i bwynt 38 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt Cylchfan Mamheilad yn Sir Fynwy.

## ATODLEN 2

### HYD A LLED Y TERFYN CYFLYMDER 10 MYA DROS DRO PAN FYDD MINTAI O WEITHWYR WRTH EU GWAITH

Y darn hwnnw o’r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 98 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Court Farm i bwynt 729 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Court Farm gan gynnwys y cyfan o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Court Farm ym Mwrdeistref Sirol Torfaen.